Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

# Bwletin rieni 16/10/20

Annwyl riant/warcheidwad,

Mae hi'n gyfnod ansicr i ni gyd ar hyn o bryd. Mae penderfyniadau sy'n digwydd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr wedi arwain nifer o rieni i ofyn am y camau nesaf i ni yng Nghymru o ran arholiadau a'r posibiliad o ymestyn hanner tymor. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw wybodaeth mwy na chi am hwn. Rydyn ni'n aros i glywed fwy am drefniadau arholiadau haf 2021 yn ystod yr wythnos nesaf ac rydyn ni wedi cynllunio ar sail yr hanner tymor arferol. Byddwn ni'n cyfathrebu unrhyw newyddion neu newidiadau i chi trwy'r bwletin wythnosol ond hefyd trwy Twitter (@YsgolPenweddig).

## Prif swyddogion

Llongyfarchiadau i Ioan Morris Rhianedd Owen a Rhys Tanat am gael eu dewis fel prif swyddogion. Llongyfarchiadau hefyd i'r dirprwyon, sef Elin Rattray, Ifan Davies a Mari Hefin. Braf oedd gweld disgyblion gyda gweledigaeth glir a syniadau sut i'w wireddu yn ystod y cyfnod anarferol hwn. Diolch hefyd i'r ymgeiswyr eraill - roedd y gystadleuaeth yn agos a gwerthfawrogwn eu syniadau a'u cyfraniad.

## Llongyfarchiadau i ddisgyblion

Mae gwaith menter a busnes disgyblion yr ysgol eisoes wedi arwain at gryn lwyddiant mewn cystadlaethau cenedlaethol. Braf oedd clywed yr wythnos hon am fwy o lwyddiant gyda'r tîm 'Eli-Gant' yn ennill y wobr am y cynllun busnes gorau yng Nghymru yn y gystadleuaeth menter ifanc.

## Noson Fugeiliol Blwyddyn 7

Mae darparu gwybodaeth wyneb-i-wyneb i chi fel rhieni yn heriol yn y cyfnod presennol. Er mwyn ceisio datrys y broblem rydyn ni wedi archebu adnodd er mwyn ceisio sicrhau ein bod ni'n medru trefnu nosweithiau rhieni rithiol sy'n gweithio i bawb. Ein bwriad yw cynnal noson fugeiliol i flwyddyn 7 yn yr wythnos sy'n dechrau'r 9fed o Dachwedd er mwyn i rieni blwyddyn 7 siarad gyda'r tiwtor dosbarth a/neu'r arweinydd cynnydd a lles i gael adborth cyffredinol am les a chynnydd eu plant yn ystod yr hanner tymor. Os mae hwn yn llwyddiannus byddwn ni'n cyhoeddi rhaglen nosweithiau rieni ffurfiol ar gyfer y blynyddoedd ysgol eraill.

## Mygydau

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Ceredigion yn darparu mygydau addas ar gyfer disgyblion uwchradd. Mae'r rhain wedi cyrraedd ac rydyn ni wedi dechrau'r broses o'u dosbarthu i ddisgyblion. Mae dau ohonynt i bob disgybl a bydd hwn yn gymorth wrth iddynt deithio ar fysiau ysgol ac yn symud o amgylch yr ysgol.

## Rhaglen Carlam

Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno grant i gefnogi disgyblion wrth iddynt ail-gydio yn eu haddysg a pharatoi ar gyfer arholiadau allanol. Ffocws y grant yw disgyblion blwyddyn 11-13, disgyblion blwyddyn 7 a disgyblion bregus. Bydd hwn yn ein galluogi ni i ddarparu ychydig mwy o gymorth i rai disgyblion yn y pynciau craidd a rhannu rhai grwpiau dysgu i rai llai. Os mae hwn yn effeithio eich mab/merch byddwn ni'n eich hysbysu.

## Hafan

Mae hafan yr ysgol yn darparu cefnogaeth i unigolion bregus. Yn ystod y cyfnod presennol mae'r hafan yn medru delio gyda llai o ddisgyblion nag arfer felly mae disgyblion yn medru trefnu sesiwn yn yr hafan trwy anfon neges testun i **07970069723 gyda'i enw llawn (enw'r disgybl) a blwyddyn ysgol.**

## Academi Seren

Mae'r academi seren yn rhan o'r rhwydwaith seren cenedlaethol sy'n ceisio paratoi disgyblion sy'n cwrdd â meini prawf penodol o ran eu canlyniadau TGAU ar gyfer ceisio am le mewn prifysgolion cystadleuol. Fel popeth eleni, roedd hwn yn ddigwyddiad rhithiol, ond ar ôl ychydig o broblemau technolegol cychwynnol roedd e'n braf gweld cymaint o ddisgyblion blwyddyn 12 yn rhan o lansiad yr academi eleni. Gobeithiwn fydd hwn yn eu hysbrydoli i anelu'n uchel ar gyfer eu dyfodol.

## Arolwg Lles

Mae disgyblion wedi derbyn manylion arolwg lles sirol trwy ShowMyHomework. Mae hwn yn rhan o waith y sir wrth iddynt geisio adnabod effaith ymyraethau a gwybod ble i dargedu cymorth ychwanegol. Os nad yw eich plentyn wedi ei gwblhau gofynnwn a yw'n bosib iddynt wneud yn ystod yr wythnos. Nodaf y dolenni isod.

**Blwyddyn 7-11:**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k6wb5a7UViFJskuNfbw9ujRUMFgzTVdGT0ZZQ0wxMVlYMlFLWlZGRFlXNi4u

**Chweched:**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k6wb5a7UViFJskuNfbw9ujRUNVY1SFdXUFJOT1U2MEY0SEpRMkVETDlPWi4u

## Cyfygiadau cenedlaethol

Mae gwybodaeth wedi dod i'r amlwg fod disgyblion o ysgolion uwchradd yn Aberystwyth a thu hwnt yn mynychu partïon lle nad yw'n bosibl cadw at y rheolau a chanllawiau o ran Covid 19, ac sydd yn amlwg yn peri risg i ddiogelwch. Rydyn ni wedi atgoffa'r disgyblion o'r rheolau sydd yn eu lle ledled Cymru:

*"Dim ond y bobl sy'n byw gyda chi (eich aelwyd), ac (os nad oes cyfyngiadau lleol yn gwahardd hyn) aelodau o'ch aelwyd estynedig os ydych wedi ffurfio un, y cewch chi gwrdd â nhw yn gymdeithasol o dan do. O 14 Medi, rhaid cyfyngu ar gynulliadau a chyfarfodydd o dan do, hyd yn oed o fewn eich aelwyd estynedig, i 6 o bobl yn unig (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw blant o dan 11 oed).*

*Mae hyn yn berthnasol mewn mannau fel tafarndai a bwytai yn ogystal ag yng nghartrefi pobl."*

## Gwaith tra'n absennol

*Hoffwn ailadrodd un neges o'r bwletin diwethaf gan ei fod yn bwysig.* Mae'r ysgol yn defnyddio ShowMyHomework ar gyfer adborth, ond hefyd i gofnodi gwaith cartref. Ble mae disgyblion i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod, bydd staff yn rhoi unrhyw adnoddau defnyddiwyd mewn gwersi ar y wefan. Os mae disgybl yn cael cyfarwyddyd i hunan-ynysu am gyfnod trwy system tracio'r GIG neu'r Sir, gall yr arweinydd cynnydd a lle trefnu fod gwaith pynciol ar gael iddynt trwy ShowMyHomework. Cysylltwch gyda'r arweinyddion cynnydd a lles gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-byst canlynol.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 7: | Mrs Sara James (@Bl7Penweddig)<br>(E-bost: bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk) |
| Blwyddyn 8 a 9: | Mr Wil Bowen<br>(E-bost: bl8a9@penweddig.ceredigion.sch.uk) |

Blwyddyn 10 ac 11: Mrs Nia Wyn Williams
(E-bost: bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Blwyddyn 12 a 13: Mr Ceri John (@6edPenweddig)
(E-bost: bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk)

Dymunaf benwythnos da i chi gyd.



Dr Rhodri Thomas

(Pennaeth)

# Neges gan Gyngor Sir Ceredigion

📣 *Yn galw ar bob rhiant/gwarcheidwad.*

*Cofiwch na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan unrhyw aelod o'ch aelwyd symptomau'r coronafeirws, gan fod angen i bob aelod o'r aelwyd honno hunanynysu.*

*Darllenwch yr isod i wybod am ba mor hir y mae angen i chi hunanynysu, a sut y mae archebu prawf. Gyda'n gilydd, gallwn gadw Ceredigion yn ddiogel.*



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

# Bulletin for Parents 16/10/20

Dear parent / guardian,

It's an uncertain time for all of us at the moment. Decisions taking place in Scotland, Northern Ireland and England have led many parents to ask us about the next steps for us in Wales in terms of exams and the possibility of extending half term. At the moment we have no more information than you about this. We are waiting to hear more about the summer 2021 exam arrangements next week and have planned on the basis of the usual half term. We will communicate any news or changes to you through the weekly bulletin but also through Twitter (@YsgolPenweddig).

## Senior prefects

Congratulations to Ioan Morris, Rhianedd Owen and Rhys Tanat for being selected as senior prefects. Congratulations also to their deputies, Elin Rattray, Ifan Davies and Mari Hefin. It was good to see pupils with a clear vision and ideas on how to make it happen during this unusual time. Thanks also to the other applicants - the competition was close and we were impressed by their ideas and contribution.

## Congratulations to pupils

The school's enterprise and business work has already led to considerable success in national competitions. It was good to hear this week about more success with the 'Eli-Gant' team winning the award for the best business plan in Wales in the young enterprise competition.

## Year 7 Pastoral Evening

Providing face-to-face information to you as parents is challenging under the current circumstances. To try to solve the problem we have ordered a resource to try and ensure that we can organize virtual parents' evenings that work for everyone. It is our intention to hold a pastoral evening for year 7 in the week beginning 9th November for year 7 parents to speak to the form tutor and / or progress and welfare leader for general feedback on wellbeing and progress their children during half term. If this is successful we will announce a formal parents' evening program for the other school years.

## Masks

The Welsh Government and Ceredigion Council provide suitable masks for secondary pupils. These have arrived and we have started the process of distributing them to pupils. There are two for each pupil and this will help them as they travel on school buses and move around the school.

## Accelerated Learning Programme

The government has introduced a grant to support pupils as they resume their education and prepare for external examinations. The focus of the grant is year 11-13 pupils, year 7 pupils and vulnerable pupils. This will enable us to provide a little more support for some pupils in the core subjects and to split some teaching groups into smaller ones. If this affects your son / daughter we will inform you.

## Hafan

The Hafan provides support for vulnerable individuals. During the current period the Hafan can deal with fewer pupils than usual so pupils can arrange a session in the Hafan by **texting 07970069723 with their full name (pupil name) and school year.**

## Seren Academy

The Seren academy is part of the national Seren network which aims to prepare pupils for applying to competitive universities. Pupils are identified based on their GCSE performance. Like everything this year, this was a virtual event, but after a few initial technological problems it was nice to see so many year 12 pupils involved in this year's academy launch. We hope this will inspire them to aim high for their future.

## Welfare Survey

Pupils have received details of a county welfare survey through ShowMyHomework. This is part of the county's work as they seek to identify the impact of interventions and identify where to target additional support. If your child has not completed the survey we ask if they can do so during the week. I note the links below.

**Years 7-11:**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k6wb5a7UViFJskuNfbw9ujRUMFgzTVdGT0ZZQ0wxMVlYMlFLWlZGRFlXNi4u

**Sixth form:**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k6wb5a7UViFJskuNfbw9ujRUNVY1SFdXUFJOT1U2MEY0SEpRMkVETDlPWi4u

## National Guidelines

Information has emerged that pupils from secondary schools in Aberystwyth and the surrounding area are attending parties where the rules and guidelines regarding Covid 19 cannot be observed, and which obviously pose a risk to safety. We have reminded pupils of the rules in place across Wales:

*"Only the people who live with you (your household), and (if local restrictions do not prohibit it) members of your extended household if you have formed one, you can meet socially indoors . From 14 September, indoor gatherings and meetings, even within your extended household, must be limited to 6 people only (this does not include any children under 11).*

*This applies in places like pubs and restaurants as well as in people's homes."*

## Work while absent

*I would like to reiterate one message from the last bulletin as it is important*. The school uses ShowMyHomework for feedback, but also to record homework. Where pupils are away from school for a period, staff will post any resources used in lessons on the website. If a pupil is instructed to self-isolate for a period through the NHS or County tracking system, the progress leader and place may arrange for subject work to be made available to them through ShowMyHomework. Contact the progress and wellbeing leads using the following email addresses.

| | |
|---|---|
| Year 7: | Mrs Sara James (@Bl7Penweddig)<br>(E-mail: bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk) |
| Year 8 and 9: | Mr Wil Bowen<br>(E-mail: bl8a9@penweddig.ceredigion.sch.uk) |

| | |
|---|---|
| Year 10 and 11: | Mrs Nia Wyn Williams<br>(E-mail: bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk) |
| Year 12 and 13: | Mr Ceri John (@6edPenweddig)<br>(E-mail: bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk) |

I wish you all a restful weekend,



Dr Rhodri Thomas

(Headteacher)

## A message from Ceredigion County Council

*📣 Calling all parents/guardians.*

*Remember you should not send your child to school if any member of your household has coronavirus symptoms, as all members of the household need to self-isolate.*

*Read on to find out for how long you need to self-isolate, and how to book a test.* 👇

*Together, we can keep Ceredigion safe.*